

## **MEMORANDUM OF UNDERSTANDING BETWEEN THE WELSH MINISTERS AND THE CONSUMER COUNCIL FOR WATER**

### **Explanatory Note**

This Memorandum of Understanding contains an agreement between the Consumer Council for Water (CCWater) and the Welsh Ministers and sets out the principles and values which underlie the relationship between the two parties.

The Memorandum is a statutory agreement required under section 27B of the Water Industry Act 1991, as amended by the Water Act 2003. This Act places a duty on CCWater and the Welsh Ministers to make arrangements with each other with a view to securing:

- Co-operation and the exchange of information between them; and
- The consistent treatment of matters which affect both of them.

For the purposes of this Memorandum "Wales" means water company areas that are wholly or mainly in Wales.

## MEMORANDUM OF UNDERSTANDING

### 1. Introduction

- i. This Memorandum of Understanding sets out the principles that guide relations between the Consumer Council for Water (“CCWater” or “the Council”), and the Welsh Ministers. For the purposes of this Memorandum “Wales” means water company areas that are wholly or mainly in Wales.
- ii. The Memorandum is required by section 27B of the Water Industry Act 1991, as amended by the Water Act 2003 (hereafter collectively called “the Act”), to secure (a) co-operation and exchange of information between the Welsh Government and the Council; and (b) the consistent treatment of matters which affect them both. The Memorandum is not intended to cover every detailed aspect of the relationship between the two parties. It is a statement of principles which will guide relations between the two parties to ensure sufficient arrangements are in place to enable each party to discharge our respective responsibilities effectively and to avoid duplication of effort.
- iii. This Memorandum is not legally binding but to serve as a working document which will be subject to review in the light of operational practice.

### 2. Review of Memorandums

This Memorandum will be kept under review and amendments may be made at any time by agreement of both parties. A full review will be undertaken by 2024.

### 3. Roles and Responsibilities

- i. CCWater is a statutory body with functions in respect of England and Wales. It is established as an executive Non-Departmental Public Body (NDPB). It carries out its statutory functions with technical expertise, impartiality and transparency, across England and Wales and at arm’s length from both Governments.
- ii. CCWater represents the interests of consumers across England and Wales by handling complaints about water and sewerage undertakers and licensed water suppliers, acquiring and publishing information, providing advice, and investigating matters of interest to consumers.
- iii. The Council is supported by regional committees in England and a Committee for Wales established under the Act principally to provide advice and information to CCWater on consumer matters affecting the areas of the relevant water and sewerage undertakers allocated to the committees.
- iv. The Welsh Government provides the strategic direction for water policy and sets the regulatory framework for the water and sewerage sector in Wales. Welsh Government policy, Welsh legislation and the views and interests of the consumers of the water companies operating in Wales set the framework within which CCWater conducts its duties in respect of Wales.
- v. In agreeing this Memorandum we affirm our commitment to working together, where appropriate, on matters of mutual interest. We recognise the importance

of co-operation across a range of areas, whilst at the same time maintaining our statutory independence.

- vi. The Welsh Government fully recognises the independence of CCWater and CCWater recognises the legitimate interests and responsibilities of the Welsh Government in the overall work of CCWater.
- vii. Water Policy Branch within the Welsh Government is the first point of contact for CCWater.

#### **4. Working Relationship**

We will seek to build on the good working relationship that already exists between us by:

- Having an open and constructive working relationship;
- Working closely together at all levels, both in policy, and in strategic issues of importance;
- Undertaking regular bilateral meetings between CCWater and Welsh Government officials;
- Facilitating meetings between the Wales Chair of CCWater and Welsh Government officials and Ministers.
- Respecting each other's views, where different, after discussion to ensure proper understanding of the reasons for any such differences;
- Having a "no surprises" policy, based on notifying each other well in advance where possible of significant announcements and developments in policy; and
- Minimising duplication of activity wherever possible.

#### **5. Treatment of Matters of Common Interest**

- i. We are committed to the principle of good communication with each other on areas of mutual interest on a "no surprises" basis. This will be done through regular liaison and regular discussion on relevant issues. The intention is not to constrain the discretion of either party but to allow each to make representations to the other in sufficient time for those representations to be considered.
- ii. Against this background, and subject to the Freedom of Information Act 2000, the Environmental Information Regulations 2004, and the Data Protection Act 2018, in confidence where necessary, we will:
  - Brief one another as soon as practicable to relevant developments within their areas of responsibility, whenever possible prior to publication.
  - Give appropriate consideration to the views of others and explain where we do not agree.

- Agree agendas and proposals for meetings between Ministers and senior CCWater representatives at least two weeks ahead of scheduled meetings.
  - Invite each other to press and public events hosted by one, but of interest to both.
  - Where appropriate, liaise, involve and keep each other informed on the drafting of key documents where relevant to the other party's functions.
- iii. The Welsh Government will consult the national Chair of CCWater before appointing a Council member, namely the Chair of CCWater's Wales Committee. (Water Industry Act 1991 Paragraph 1(3) of Schedule 3A), and invite the Chair to join the appointments panel.
  - iv. The Welsh Government's internal audit services may assess the effectiveness of CCWater's internal audit arrangements by scrutiny of their plans for future activity, reports of past activity and its annual assurance report; and have access to all documents prepared by CCWater's internal audit function, including where the service is contracted out.
  - v. CCWater will
    - Hold a Board meeting in Wales at least once a year and invite the relevant Welsh Government Minister and Welsh Government officials to attend.
    - Consult with the Welsh Government and its Welsh stakeholders on the development of its Forward Work and Programmes.
    - Contribute to the achievement of the aims, objectives and targets of the Welsh Government including those set out in the 'Well Being of Future Generations (Wales) Act (2015)' and the 'Water Strategy for Wales'.
    - Participate in Welsh Government policy and regulators forums at Board or Executive Team level.
    - Submit a draft of the Annual Report and Accounts reports to the Welsh Government to consider.
    - Consult with the Welsh Government on CCWater's strategic objectives in relation to Wales and on its proposed annual budget.
    - Outline in their operational business plan how CCWater's forward work programme will be delivered each year and include key targets and milestones for the year immediately ahead and link them to budgeting information so that resources allocated to achieve specific objectives can readily be identified by the Welsh Government.
    - Liaise at least annually with Welsh Government officials to review CCWater's financial performance against plans and targets and how well it is achieving its strategic objectives and is delivering value for money.

- Provide timely forecasts and monitoring information on performance and finance to the Welsh Government; and notify the Welsh Government promptly, if over or under spends are likely and of any proposed corrective action is taken, and of any significant problems whether financial or otherwise, and whether detected by internal audit or by other means.
- Provide the Welsh Government via a quarterly report with such information about its operations, performance individual projects or other expenditure as it may reasonably require.
- Share the agenda and minutes of all Audit and Risk Management Committee meetings with the Welsh Government.
- Provide the Welsh Government with access to all CCWater records and personnel for any purpose including, for example, sponsorship audits and operational investigations.
- Provide the Auditor General for Wales (by virtue of the Government of Wales Act 1998 as amended by the Public Audit (Wales) Act 2004) with full access to CCWater's books and records for the purpose of carrying out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which CCWater has used its resources in discharging its functions, and to examine matters of regularity and propriety of expenditure and receipts in Wales.

## **6. Exchange of Information**

- i. We will aim to minimise the burden placed on water and sewerage undertakers and licensed water suppliers ("the Companies") in providing information to public authorities. We will aim to avoid duplication by sharing publication schedules and plans to collect information from Companies. Where appropriate, we will consult each other before considering an approach to Companies to determine whether the required information is already held in a suitable form by the other party.
- ii. We will provide information in our possession that may be reasonably requested by the other subject to necessary confidentiality constraints and safeguards or any relevant bars on disclosure.
- iii. We will take account of each other's statutory responsibilities in relation to the disclosure of sensitive information.
- iv. We will refer back to the originating party any requests for information we hold but did not collect and which we are aware is confidential in nature. If we have shared information with each other, and we disclose this information to third parties, we will inform each other. We will make each other aware of any significant disclosures to third parties of information we have shared.

## **7. Disputes**

If there is a dispute about the interpretation and/or operation of the Memorandum which cannot be resolved between us at working level, the Council's Chief Executive and the relevant Deputy Director in the Welsh Government will discuss the matter and decide what action to take.

## **8. Publication of Memoranda**

This memoranda before will be published on CCWater's website ([www.ccwater.org.uk](http://www.ccwater.org.uk)) and on the Welsh Government's website ([www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk))

**Signed by:**



**Tony Smith, Chief Executive for the Consumer Council for Water**

**Date:** 16 December 2019



**Eifiona Williams, Head of Water Branch for the Welsh Ministers**

**Date:** 16 December 2019

## **MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A'R CYNGOR DEFNYDDWYR DŴR**

### **Nodyn Esboniadol**

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cynnwys cytundeb rhwng y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (y Cyngor Dŵr) a Gweinidogion Cymru, ac mae'n amlinellu'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r berthynas rhwng y ddau barti.

Mae'r Memorandwm yn gytundeb statudol sy'n ofynnol o dan adran 27B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Dŵr a Gweinidogion Cymru i wneud trefniadau gyda'i gilydd â'r nod o sicrhau:

- Bod y ddau barti yn cydweithredu ac yn rhannu gwybodaeth;
- Bod materion sy'n effeithio ar y ddau barti yn cael eu trin mewn modd cyson.

At ddibenion y Memorandwm hwn mae "Cymru" yn golygu ardaloedd cwmnïau dŵr sydd yn llwyr neu yn bennaf yng Nghymru.

## MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

### 1. Cyflwyniad

- i. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r egwyddorion sy'n arwain y berthynas rhwng y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (y Cyngor Dŵr) a Gweinidogion Cymru. At ddibenion y Memorandwm hwn mae "Cymru" yn golygu ardaloedd cwmnïau dŵr sydd yn llwyr neu yn bennaf yng Nghymru.
- ii. Mae'r Memorandwm yn ofynnol o dan adran 27B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 (cyfeirir at y ddwy ddeddf o hyn ymlaen fel "y Ddeddf"), i sicrhau (a) bod Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Dŵr yn cydweithredu ac yn rhannu gwybodaeth; a (b) bod materion sy'n effeithio ar y ddau barti yn cael eu trin mewn modd cyson. Ni fwriedir i'r Memorandwm gynnwys pob agwedd fanwl ar y berthynas rhwng y ddau barti. Mae'n ddatganiad o'r egwyddorion a fydd yn arwain y berthynas rhwng y ddau barti, i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i alluogi'r ddau barti i gyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau mewn modd effeithiol ac i osgoi dyblygu gwaith.
- iii. Nid yw'r Memorandwm yn rhwymo mewn cyfraith, ond bydd yn gweithredu fel dogfen hyblyg a fydd yn cael ei hadolygu yn unol ag arferion gweithredol.

### 2. Adolygu Memoranda

Bydd y Memorandwm hwn yn parhau i gael ei adolygu ac mae'n bosibl y gwneir diwygiadau ar unrhyw adeg os yw'r ddau barti yn gytûn. Bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal erbyn 2024.

### 3. Rolau a Chyfrifoldebau

- i. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gorff statudol â swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Cafodd ei sefydlu fel Corff Cyhoeddus Anadrannol anweithredol. Mae'n cyflawni ei swyddogaethau statudol gydag arbenigedd, amhleidioldeb a thryloywder, ledled Cymru a Lloegr ac ar hyd braich o'r ddwy Lywodraeth.
- ii. Mae'r Cyngor Dŵr yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr dŵr ledled Cymru a Lloegr drwy ymdrin â chwynion am ymgymeryd dŵr a charthffosiaeth, gan gasglu a chyhoeddi gwybodaeth, rhoi cyngor ac ymchwilio i faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr.
- iii. Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan bwyllgorau rhanbarthol yn Lloegr, a chan Bwyllgor ar gyfer Cymru a sefydlwyd o dan y Ddeddf yn bennaf i roi cyngor a gwybodaeth i'r Cyngor ar faterion defnyddwyr sy'n effeithio ar ardaloedd yr ymgymeryd dŵr a charthffosiaeth y mae'r gwahanol bwyllgorau'n gyfrifol amdanynt.
- iv. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r arweiniad strategol ar gyfer polisiau dŵr ac yn gosod y fframwaith rheoleiddiol ar gyfer y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Mae'r fframwaith ar gyfer y dyletswyddau mae'r Cyngor Dŵr yn eu cyflawni yng Nghymru yn cael ei lunio yn unol â pholisiau Llywodraeth Cymru, deddfwriaeth Cymru a safbwyntiau a buddiannau defnyddwyr y cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru.



- v. Drwy gytuno ar y Memorandwm hwn, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd, lle bo hynny'n briodol, ar faterion sydd o bwys i'r ddau barti. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ar draws amrediad o feysydd, wrth ar yr un pryd gadw ein hannibyniaeth statudol.
- vi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod annibyniaeth y Cyngor Dŵr yn llwyr, ac mae'r Cyngor Dŵr yn cydnabod buddiannau cyfreithiol a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith cyffredinol y Cyngor Dŵr.
- vii. Y Gangen Polisi Dŵr o fewn Llywodraeth Cymru yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Cyngor Dŵr.

#### **4. Perthynas Weithio**

Byddwn yn ceisio adeiladau ar y berthynas weithio dda sydd eisoes yn bodoli rhyngom drwy wneud y canlynol:

- Bod â pherthynas weithio agored ac adeiladol;
- Gweithio'n agos gyda'n gilydd ar bob lefel, wrth lunio polisiâu ac mewn materion sydd o bwys strategol;
- Cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd rhwng y Cyngor Dŵr a swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Hwyluso cyfarfodydd rhwng Cadeirydd y Cyngor ar gyfer Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.
- Parchu safbwyntiau ein gilydd, lle maent yn wahanol, ar ôl eu trafod i ddeall y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau o'r fath;
- Bod â pholisi "dim byd annisgwyl" sy'n seiliedig ar hysbysu ein gilydd mewn da bryd lle mae cyhoeddiadau arwyddocaol a datblygiadau polisi'n bosibl;
- Lleihau dyblygu gwaith cymaint â phosibl lle bynnag y bo modd.

#### **5. Ymdrin â Materion sydd o Bwys i'r Ddau Barti**

- i. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfathrebu da rhyngom ynghylch meysydd sydd o bwys i'r ddau barti ar sail "dim byd annisgwyl". Gwneir hyn drwy gysylltu'n rheolaidd a thrafod materion perthnasol yn rheolaidd. Nid cyfyngu ar ddisgresiwn y naill barti neu'r llall yw'r bwriad, ond galluogi pob un i wneud sylwadau i'r llall mewn digon o amser i'r sylwadau hynny gael eu hystyried.
- ii. Yn erbyn y cefndir hwn, ac yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018, yn gyfrinachol a lle bo angen, byddwn yn gwneud y canlynol:
  - Briffio ein gilydd cyn gynted ag y bo modd ar ddatblygiadau perthnasol o fewn ein meysydd cyfrifoldeb, cyn iddynt gael eu cyhoeddi, lle bynnag y bo modd.

- Rhoi'r ystyriaeth briodol i safbwyntiau ein gilydd ac egluro lle nad ydym yn gytûn.
  - Cytuno ar agendâu ar gyfer cyfarfodydd rhwng Gweinidogion ac uwch-gynrychiolwyr y Cyngor Dŵr o leiaf pythefnos cyn cyfarfodydd arferol.
  - Gwahodd ein gilydd i ddigwyddiadau'r wasg a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan y naill barti neu'r llall, ond sydd o ddiddordeb i'r ddau.
  - Lle bo hynny'n briodol, trafod, cyfathrebu â'n gilydd a chynnwys ein gilydd yn y gwaith o ddrafftio dogfennau allweddol lle mae'n berthnasol i swyddogaethau'r parti arall.
- iii. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â Chadeirydd Cenedlaethol y Cyngor Dŵr cyn penodi aelodau i'r Cyngor, sef Cadeirydd Pwyllgor y Cyngor Dŵr ar gyfer Cymru. (Deddf y Diwydiant Dwr 1991, paragraff 1(3) o Atodlen 3A), a gwahodd y Cadeirydd i ymuno â'r panel penodi.
  - iv. Caiff gwasanaethau archwilio mewnol Llywodraeth Cymru asesu effeithiolrwydd trefniadau archwilio mewnol y Cyngor Dŵr drwy graffu ar eu cynlluniau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, adroddiadau ar weithgareddau yn y gorffennol a'i adroddiad sicrwydd blynyddol; a chael mynediad at yr holl ddogfennau wedi'u paratoi gan swyddogaeth archwilio mewnol y Cyngor Dŵr, gan gynnwys lle mae'r gwasanaeth yn cael ei roi i gontractwyr allanol.
  - v. Bydd y Cyngor Dŵr yn gwneud y canlynol:
    - Cynnal cyfarfod yng Nghymru o leiaf unwaith y flwyddyn a gwahodd Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i fynychu.
    - Ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'i randdeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu ei Blaenraglenni Gwaith.
    - Cyfrannu at y gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a amlinellir yn 'Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)' a 'Strategaeth Dŵr Cymru'.
    - Cymryd rhan yn fforymau polisi a rheoleiddio Llywodraeth Cymru ar lefel Bwrdd a lefel Tîm Gweithredol.
    - Cyflwyno drafft o'r Adroddiad blynyddol a'r adroddiadau ar y Cyfrifon i Lywodraeth Cymru eu hystyried.
    - Ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar amcanion strategol y Cyngor Dŵr mewn perthynas â Chymru ac ar ei gyllideb flynyddol arfaethedig.
    - Amlinellu yn ei gynllun busnes gweithredol sut bydd blaenraglen gwaith y Cyngor Dŵr yn cael ei chyflawni bob blwyddyn, a chynnwys targedau a cherrig milltir

allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'u cysylltu â gwybodaeth gyllidebu er mwyn i Lywodraeth Cymru nodi'n hawdd adnoddau i'w dyrannu i gyflawni amcanion penodol.

- Cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu perfformiad ariannol y Cyngor yn erbyn cynlluniau a thargedau a pha mor dda mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac yn rhoi gwerth am arian.
- Darparu rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro ynghylch perfformiad ac arian ar gyfer Llywodraeth Cymru; a hysbysu Llywodraeth Cymru yn brydlon os yw'n debygol y bydd gorwariant neu danwariant a'i hysbysu am unrhyw gamau unioni a gymerwyd, a'i hysbysu am unrhyw broblemau arwyddocaol boed y rheini yn ariannol neu fel arall, a ph'un a gawsant eu canfod drwy archwilio mewnol neu mewn ffordd arall.
- Rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru y mae'n rhesymol gofyn amdani, drwy adroddiad chwarterol, am ei weithrediadau, perfformiad prosiectau unigol neu unrhyw wariant arall.
- Rhannu agenda a chofnodion pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg â Llywodraeth Cymru.
- Rhoi mynediad i Lywodraeth Gymru at holl gofnodion a phersonél y Cyngor Dŵr at unrhyw ddiben, gan gynnwys, er enghraifft, archwiliadau nawdd ac ymchwiliadau gweithredol.
- Darparu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru (yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (2004)) fynediad llawn ar holl lyfrau a chofnodion y Cyngor Dŵr at ddibenion cynnal archwiliadau i ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau, ac i archwilio materion sy'n gysylltiedig â rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant a derbyniadau yng Nghymru.

## **6. Rhannu Gwybodaeth**

- i. Byddwn yn ceisio lleihau'r baich a roddir ar ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth a chyflenwyr dŵr trwyddedig ("y Cwmnïau") o ran darparu gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus. Byddwn yn ceisio osgoi dyblygu drwy rannu amserlenni cyhoeddi a chynlluniau i gasglu gwybodaeth oddi wrth y Cwmnïau. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ymgynghori â'n gilydd, cyn ystyried gofyn i gwmnïau am wybodaeth i wneud yn siŵr nad yw'r parti arall eisoes yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen ar ffurf addas.
- ii. Byddwn yn darparu'r wybodaeth rydym yn meddu arni y mae'n rhesymol i'r parti arall ofyn amdani, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyfrinachedd a'r mesurau diogelwch angenrheidiol neu unrhyw waharddiad ar ddatgelu.
- iii. Byddwn yn ystyried cyfrifoldebau statudol ein gilydd mewn perthynas â datgelu gwybodaeth sensitif.

- iv. Pan fyddwn yn derbyn ceisiadau am wybodaeth rydym yn meddu arni ond na chasglwyd gennym, ac rydym yn gwybod bod ei natur yn gyfrinachol, byddwn yn cyfeirio'n cais yn ôl at y parti a roddodd y wybodaeth inni. Byddwn yn hysbysu ein gilydd os ydym yn datgelu unrhyw wybodaeth arwyddocaol rydym wedi rhannu â'n gilydd i drydydd partïon.

## **7. Anghydfodau**

Os bydd anghydfod ynghylch y ffordd mae'r Memorandwm yn cael ei ddehongli a/neu ei weithredu na ellir ei ddatrys rhyngom ar lefel weithio, Bydd Prif Weithredwr y Cyngor a'r Dirprwy Gyfarwyddwr perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn trafod y mater ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd.

## **8. Cyhoeddi Memoranda**

Bydd y memorandwm hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ([www.ccwater.org.uk](http://www.ccwater.org.uk)) a gwefan Llywodraeth Cymru ([www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru))

**Llofnodwyd gan:**



**Tony Smith, Prif Weithredwr dros y Cyngor Defnyddwyr Dŵr**

**Dyddiad:** 16 Rhagfyr 2019



**Eifiona Williams, Pennaeth y Gangen Dŵr ar gyfer Gweinidogion Cymru**

**Dyddiad:** 16 Rhagfyr 2019